Dr Kate Chamberlain
Prif Weithredwr
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful CF48 1UZ

23 Medi 2016

**Materion ehangach sy'n deillio o adolygiad llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Annwyl Dr Chamberlain,

Diolch i chi am eich cyfraniad a gafodd ei gynnwys yn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor blaenorol ynghylch *Materion ehangach sy'n deillio o adolygiad llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr*. Trafododd y Pwyllgor yr ymateb hwn yn ei gyfarfod ar 19 Medi, a mynegodd y pryder canlynol.

Mewn ymateb i argymhelliad 25 a defnyddio arolygwyr lleyg gwirfoddol fel rhan o drefniadau arolygu yn y dyfodol, nododd y Pwyllgor nad yw AGIC na Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Er y nodwyd y rhesymau dros beidio â derbyn yr argymhelliad, mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu y bydd y dull gweithredu sydd bellach yn cael ei fabwysiadu yn cyfyngu ar yr arolygwyr lleyg sydd ar gael i AGIC ac sy'n meddu ar y sgiliau angenrheidiol i ymgymryd â'r gwaith arolygu sydd angen ei wneud. Felly, byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhai sylwadau pellach gennych chi ynghylch a yw'r manteision a ragwelir drwy'r dull gweithredu yn cael eu cyflawni mewn gwirionedd. Ystyr hyn yw bod AGIC bellach yn gallu manteisio ar gronfa ehangach o arolygwyr lleyg, gan gynnwys y rheini sydd mewn cyflogaeth, a bod gan yr arolygwyr yn y gronfa y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i ymgymryd â'r gwaith y mae angen i AGIC ei wneud. Wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf hon, byddai'n ddefnyddiol gwybod faint yn fwy o arolygwyr lleyg sydd ar gael i AGIC, a chael rhywfaint o wybodaeth ynghylch o ble y mae'r arolygwyr lleyg yn dod.

Yn ei ymateb i'r argymhelliad hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am farn AGIC ynghylch a yw'r manteision a fwriadwyd o ran defnyddio arolygwyr lleyg yn cael eu cyflawni. Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Dr Andrew Goodall ar y pwynt hwn.

Yn gywir

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**